



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Ieuan Gwynedd
Rhydymain
Dolgellau
Gwynedd
LL40 2AS**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2013

Cyd-destun

Mae Ysgol Gymunedol Ieuan Gwynedd yn gwasanaethu pentref ac ardal Rhydymain, ger tref Dolgellau, ardal amaethyddol sydd ddim yn arbennig o ffyniannus nac o dan anfantais. Mae 32% o'r disgyblion yn dod o'r tu allan i ddalgylch arferol yr ysgol.

Derbynnir plant yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu penblwydd yn dair oed ac yn llawn amser y Medi canlynol. Mae nifer y disgyblion ar y gofrestr wedi gostwng yn flynyddol o 25 yn 2007 i 18 yn 2012. Mae'r gostyngiad yn niferoedd y disgyblion wedi arwain at sefyllfa ble mae'r ysgol yn rhan o gynlluniau ad-drefnu'r Awdurdod.

Nid oes unrhyw blentyn â'r hawl i dderbyn cinio am ddim; dynodir 12% o'r disgyblion fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol; ffigwr sydd yn is o lawer na'r ffigwr cenedlaethol. Mae gan ychydig iawn o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysg arbennig.

Mae cefndir ieithyddol yr ardal yn gadarn Gymreig, gyda thua 67% o'r disgyblion yn dod o aelwydydd ble siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Y Gymraeg yw prif gyfrwng yr ysgol. Mae'r holl ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Chwefror 2007. Penodwyd pennaeth dros dro i'r ysgol ym Medi 2011 ac, ers Medi 2012, bu'n cymryd gofal o Ysgol Brithdir yn ogystal.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2012-2013 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Ieuan Gwynedd yw £9,577 sy'n cymharu gydag uchafswm o £9,577 ac isafswm o £2,839 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Hon yw'r ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl uchaf o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Digonol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith;
- bron pob disgybl yn frwdfrydig, yn gwrando'n astud ac yn cyfrannu yn dda iawn yn y sesiynau dysgu;
- ymddygiad disgyblion ar bob adeg yn dda iawn;
- cysylltiadau effeithiol gyda'r rhieni a'r gymdeithas leol; a bod
- athrawon yr ysgol yn ymroddgar a'r addysgu'n dda.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- y pennaeth dros dro yn cael effaith arwyddocaol ar ethos yr ysgol fel cymuned ddysgu ac ar yr arweinyddiaeth;
- ymdeimlad cryf o weithio fel tîm ymhlith y staff ac ymrwymiad clir i sicrhau gwelliant pellach; a bod
- gwella safonau llythrennedd yn cael blaenoriaeth uchel o fewn cynllun datblygu'r ysgol.

Fodd bynnag:

- nid yw systemau hunan-arfarnu'r ysgol wedi ymwreiddio'n llwyr ac mae'r cydlynwyr yn dal i ddatblygu eu rolau; a
- nid oes digon o gynnydd ers yr arolygiad diwethaf mewn meysydd megis safonau Saesneg ar draws y cwricwlwm a rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol.

Argymhellion

- A1 Codi safonau darlllen ac ysgrifennu yn Saesneg ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2
- A2 Gwreiddo'r systemau hunan-arfarnu a chryfhau rôl y cydlynwyr pwnc
- A3 Datblygu rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol, yn arbennig yn y broses hunan-arfarnu

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro gweithrediad y cynllun gweithredu.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae disgyblion Ysgol Ieuan Gwynedd yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu gyrfa ysgol ac mae'r disgyblion mwyaf galluog yn cyrraedd safonau da.

Mae'r disgyblion bron i gyd yn gwrando'n astud, yn cydweithio'n effeithiol ac yn gweithio'n ddyfal mewn sesiynau dysgu. Gall mwyaf y disgyblion drafod eu dysgu yn effeithiol ac, ar draws yr ysgol, mae eu dealltwriaeth o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith yn dda.

Er bod lleiafrif o'r disgyblion yn hanu o gartrefi lle siaredir Saesneg fel iaith gyntaf, mae bron pob disgybl yn datblygu i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyflym. O oed cynnar, mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus ar lafar yn Gymraeg. Gallant sgwrsio'n glir a brwdfrydig am eu gwaith ac mewn amrywiol sefyllfaoedd anffurfiol, gan ddefnyddio geirfa briodol a chynyddol gyfoethog.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr effeithiol yn unol â'u hoed a'u gallu. Maent yn darllen yn rhugl, yn gywir ac yn ddeallus yn Gymraeg. Gallant drafod cynnwys llyfrau'n effeithiol, mynegi barn amdanynt a thrafod eu hoff awduron.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n ystyrlon ac yn annibynnol. Mae gan y rhan fwyaf afael cadarn ar gystrawen Gymraeg ac yn gyffredinol yn atalnodi eu gwaith yn briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau ysgrifennu gan ddefnyddio'r nodweddion hyn yn hyderus ar draws ystod o bynciau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu estynedig yn y Gymraeg.

Er hynny, nid yw gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i ddarllen ac ysgrifennu'n estynedig yn y Saesneg yn datblygu'n dda.

O oed ifanc iawn, mae'r disgyblion yn gwneud defnydd hynod effeithiol o offer technoleg a gwybodaeth fel offer recordio, cyfrifiaduron cludadwy a nifer o raglenni i gefnogi eu dysgu. Mae medrau rhifedd a meddwl y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion saith mlwydd oed a gyflawnodd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) neu'n uwch mewn medrau iaith, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg ac yn agos i gyfartaledd Cymru gyfan. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd yr ysgol ymhlith y 25% isaf yng Nghymru. Yn gyffredinol, roedd canran y disgyblion a

gyrhaeddodd y deilliant uwch (deilliant 6) yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru yn eu sgiliau iaith, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn yr holl bynciau yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012 yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac yn uwch na chyfartaledd canlyniadau'r teulu o ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol yn cymharu'n ffafriol iawn gydag ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf ym mhob pwnc ers 2010. Mae canlyniadau'r ysgol wedi bod yn gyson uwch na'r teulu ac ysgolion Cymru ers 2010.

Dengys cofnodion tracio mewnol yr ysgol bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cystal â, neu'n well na'r disgwyl.

Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn dangos cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Lles: Da

Teimla'r disgyblion yn ddiogel iawn yn yr ysgol ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r disgyblion yn cael cyfle i leisio barn a mynegi pryder. Mae pawb yn datgan eu bod yn cael eu trin â pharch ac yn medru troi at oedolion am gymorth os bydd angen.

Mae ymddygiad y plant yn gyson dda iawn. Maent yn parchu rheolau'r ysgol ac yn ymroi'n frwdfrydig i ddysgu o fewn y gwersi. Gwelir amryw enghreifftiau o ddisgyblion o bob oed yn cynnig cymorth a chyfeillgarwch i eraill.

Mae'r disgyblion yn falch o'u hysgol a'u cymuned leol ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael gwneud gwahaniaeth. Maent yn mwynhau cyfrannu tuag at weithgareddau'r cyngor ysgol ac yn falch o'r cyfle i godi arian er budd elusennau a phobl eraill.

O ganlyniad i gyfoeth o weithgareddau cymunedol ac allanol mae medrau cymdeithasol a bywyd rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion yn adnabod eu cymuned yn dda iawn ac yn ei gwerthfawrogi. Mae'r disgyblion yn y grwpiau menter a'r siop ffrwythau yn elwa ar y profiad o ddatblygu busnes i'r ysgol.

Mae canran presenoldeb disgyblion yr ysgol dros gyfnod yn gyson dda. Yn 2011-2012 roedd yn 95.3%, sy'n dda o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim ac yn uwch na chanran yr Awdurdod Lleol a Chymru. Mae prydlondeb disgyblion yn dda iawn.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn cynllunio'n ofalus er mwyn darparu ystod eang o weithgareddau dysgu priodol i'r holl ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy abl a thalentog yn eu herio a'u hymestyn yn effeithiol.

Mae'r cynlluniau ysgol gyfan, ynghyd â chynlluniau athrawon unigol, yn sicrhau bod datblygiad a dilyniant cadarn yn y medrau allweddol ar draws y cwricwlwm.

Darpara'r athrawon gyfleoedd effeithiol i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau siarad, gwrando a darllen, ac mae'r gweithdrefnau i gefnogi darllen yn y Saesneg yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y safonau.

Mae'r ddarpariaeth gyfoethog ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn ganolog i holl waith a bywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cyfoeth o gyfleoedd i ddisgyblion berfformio a chystadlu, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth yn rhoi sylw da i waith beirdd, awduron, arlunwyr ac enwogion Cymreig eraill.

Darpara'r ysgol brofiadau da sy'n hyrwyddo gwybodaeth y disgyblion o ddatblygiadau cynaliadwy, ond mae'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth byd-eang yn llai effeithiol.

Addysgu: Da

Ar draws yr ysgol, mae'r addysgu yn dda. Mae'r athrawon yn ymateb yn ddeallus iawn i anghenion y disgyblion ac yn y gwersi gorau mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu trwy wneud eu penderfyniadau eu hunain a gweithio'n annibynnol.

Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth dda o ofynion y cwricwlwm a strategaethau amrywiol i hybu annibyniaeth y disgyblion mewn sawl agwedd o'r cwricwlwm. Ym mron pob un o'r gwersi arsylwyd, roedd yr athrawon ac oedolion eraill yn ysgogi disgyblion drwy ddarparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion hunanasesu eu gwaith a gwaith eu cymheiriaid. Mae prosesau asesu ar gyfer dysgu wedi eu gwreiddio'n dda yn yr ysgol erbyn hyn ac yn cael eu gweithredu'n gyson. Mae agweddau da i'w gweld yn y marcio a cheir enghreifftiau o sylwadau sy'n dangos yn glir y ffordd ymlaen i ddisgyblion wella eu gwaith.

Mae gan bob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn ymroddgar iawn ac yn gweithio'n galed i sicrhau safonau uchel. Maent yn paratoi tasgau sy'n addas ar gyfer yr ystod gallu ym mhob dosbarth, gan gynnwys gwaith ymestynnol a heriol sy'n bodloni anghenion y disgyblion mwy abl. Mae cyflymder y gwersi, cwestiynu treiddgar a brwdfrydedd yr athrawon yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at ddatblygu dysgwyr annibynnol. Mae staff cefnogol yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn yr holl ddisbarthiadau.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau asesu effeithiol sy'n cofnodi cyrhaeddiad pob disgybl yn glir. Maent hefyd yn nodi cyfleoedd i ymestyn disgyblion mwy abl a thalentog.

Mae adroddiadau i rieni yn cwrdd â'r gofynion statudol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y disgyblion. Caiff disgyblion eu hannog i fwyta'n iach a, thrwy weithgareddau corfforol tu mewn a thu allan i'r ysgol, cânt amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffitrwydd ac

iechyd. Mae'r gwasanaethau dyddiol, a gefnogir gan eglwysi lleol, yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol da iawn ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol y disgyblion. Mae'n cydweithio yn agos iawn gydag asiantaethau allanol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn elwa o'r cymorth perthnasol sydd ar gael ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth cwnsela a'r gwasanaeth seicolegol.

Defnyddir ystod o ddulliau addas i adnabod anghenion arbennig disgyblion yn effeithiol, gan gynnwys profion darllen, profion sillafu a barn broffesiynol yr athrawon. Defnyddir grwpiau ymyrraeth, cefnogaeth i unigolion a chymorth o fewn y dosbarthiadau i gyfarfod yn effeithiol â'r anghenion hyn. Mae trefn fonitro cynnydd addas yn ei lle, a'r disgyblion yn cael eu cefnogi'n briodol o fewn y grwpiau ymyrraeth fel bo'r angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chroesawgar gydag awyrgylch cyfeillgar ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae'r ethos yn gynhwysol ac mae pob disgybl yn cael mynediad cyfartal i holl ddarpariaeth yr ysgol. Rhoddir pwyslais da ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth

Mae'r ystafelloedd dosbarth o amgylch yr ysgol yn ddeniadol a symbylus ac yn creu amgylchedd dysgu trawiadol. Mae safon y gwaith arddangos, sy'n cynnwys gwaith celf disgyblion, o safon uchel.

Mae'r ardaloedd allanol eang yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gyfoethogi'r ystod o gyfleoedd dysgu i grwpiau Cyfnod Sylfaen a hefyd i weithgareddau chwaraeon ffurfiol ac anffurfiol. Mae safon cynnal a chadw a glanweithdra'r adeilad a'r tir yn dda.

Mae digon o adnoddau priodol i gyfarfod ag anghenion y disgyblion, a gwneir defnydd effeithiol ohonynt.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Ers penodiad y pennaeth dros dro ym mis Medi 2011 gwnaed cynnydd cyflym mewn byr amser ym meysydd pwysig a rheolwyd newid yn dda. Mae'r pennaeth dros dro yn cydweithio'n effeithiol iawn â staff yr ysgol i greu ethos positif a gweledigaeth glir i'r dyfodol. O ganlyniad, mae gwelliant yn y cynllunio strategol sydd bellach yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r amgylchedd dysgu. Er nad yw'r holl weithgareddau wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar safonau'r disgyblion ar draws yr ysgol, mae sylfeini cadarn wedi eu gosod.

Lluniwyd adolygiad cynhwysfawr a chytbwys o'r ddarpariaeth sy'n rhoi cyfeiriad clir ar gyfer datblygiad ysgol. Mae gan bob aelod staff swydd-ddisgrifiad penodol sy'n sicrhau eu bod yn deall eu rôl o ran gweithredu cynlluniau'r ysgol.

Rhoddir sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Sefydlwyd y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus iawn gan sicrhau adnoddau addas sy'n cael eu rheoli'n effeithiol. Mae asesu ar gyfer dysgu yn gwreiddio bellach o fewn gwersi ac yn cyfrannu'n addas at godi safonau.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn gynyddol ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn dechrau monitro'r addysgu yn rheolaidd ar draws ardaloedd y cwricwlwm ac yn chwarae rôl briodol yn rheoli perfformiad y pennaeth. Maent yn dechrau defnyddio data yn fwy effeithiol i adnabod cryfderau ac ardaloedd i'w gwella ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn ymwybodol fod angen datblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol ymhellach.

Gwella ansawdd: Digonol

Ers penodiad y pennaeth gwnaed cynnydd addas i ddatblygu trefniadau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r broses yn gynhwysol ac mae'r ysgol yn weithredol wrth geisio canfod barn rhieni, disgyblion, ac athrawon. Mae'r ysgol yn dadansoddi canlyniadau ffurfiol yn addas ar ddiwedd y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid yw'r broses hunan arfarnu wedi gwreiddio'n llwyr ac nid yw aelodau staff yn ddigon hyderus fel cydlynwyr pwnc.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn ddogfen sy'n rhoi darlun cytbwys o gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae cysylltiad digon clir rhwng yr adroddiad a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol ac mae cynnwys y cynllun datblygu ysgol yn dderbyniol.

Yn ddiweddar, defnyddiwyd data yn bwrpasol i dargedu cymorth penodol i grwpiau o ddisgyblion. Mae'r strategaeth hon yn symud dysgu carfannau o ddisgyblion ymlaen yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda i atgyfnerthu'i hymrwymiad i rwydweithiau proffesiynol gydag ysgolion o fewn y dalgyloch. Mae'r staff yn ymwneud ag ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu effeithiol ac adlewyrchir hyn mewn agweddau ar y ddarpariaeth fel y ffocws ar wella asesu ar gyfer dysgu.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â mwyafrif argymhellion yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd wedi ei wneud i godi safonau darllen ac ysgrifennu yn y Saesneg ac mae'r cydlynwyr a'r llywodraethwyr yn dal i ddatblygu eu rolau yn y broses o hunan arfarnu.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar les a chyrrhaeddiad disgyblion. Mae'r pennaeth a'r staff yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r rhieni. Mae cydweithio a chyfathrebu effeithiol hefyd gydag ysgolion cynradd eraill, yr ysgolion uwchradd lleol a gwasanaethau arbenigol yr awdurdod lleol, yn ogystal â nifer o asiantaethau eraill. Maent oll yn cyfrannu'n helaeth at gyfoethogi'r ddarpariaeth a gwella'r deilliannau er lles y disgyblion.

Mae'r trefniadau trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd eraill yr ardal ynghyd â'r ysgolion uwchradd er mwyn cymedroli a safoni gwaith disgyblion.

Mae amryw o ymwelwyr o'r gymuned leol a thu hwnt yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

Rheoli adnoddau: Da

Mae adnoddau staffio ac adnoddau ariannol yr ysgol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n effeithlon i wella'r dysgu. Fe wneir defnydd da o amser a phrofiad athrawon a chymorthyddion ac maent yn cydweithio a chefnogi ei gilydd yn dda.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol. Caiff adeiladau'r ysgol eu cynnal yn dda ac mae ystod ac ansawdd yr adnoddau dysgu yn dda. Caiff adnoddau ariannol eu dyrannu'n briodol yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol ac o ystyried y safonau ac ansawdd y ddarpariaeth mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Roedd canran y disgyblion saith mlwydd oed a gyflawnodd ddangosydd y Cyfnod Sylfaen (canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5 neu uwch mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol mewn cyfuniad) yn 2012 yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a braidd yn agos i gyfartaledd Cymru gyfan. Yn gyffredinol, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y deilliant uwch na'r disgwyl (deilliant 6) yn uwch nag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru yn eu sgiliau iaith, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol ddi-dâl, roedd hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf yng Nghymru. Yn gyffredinol, cyflawnodd y merched yn well na'r bechgyn.

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen, nid oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael.

Mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth dros dair blynedd wedi bod yn weddol wastad gyda'r ysgol yn gyson uwch na'r teulu a Chymru ers 2009. Mae canlyniadau lefel 5 yr ysgol wedi amrywio tipyn yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf ac wedi bod yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru yn Saesneg a gwyddoniaeth dros y tair blynedd ddiwethaf.

Anodd yw darganfod unrhyw batrwm arwyddocaol rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r merched yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf oherwydd maint y grwpiau.

Nid oes unrhyw batrwm amlwg o fewn y data ar ddiwedd cyfnod allweddol yn gysylltiedig â grwpiau penodol o ddisgyblion, fel disgyblion â hawl i ginio am ddim.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhawyd 17 o holiaduron gan rieni. Mae lefelau bodlonrwydd rhieni yn uchel, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd. Maent i gyd yn fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol. Mae pawb o'r farn bod yr addysgu yn dda a bod yr athrawon yn disgwyl i'w plant weithio'n galed. Credant bod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau. Dywedant eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Mae pawb o'r farn bod eu plant yn gwneud cynnydd priodol a'u bod yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae pawb yn datgan bod yr ysgol yn paratoi eu plant ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg a bod y gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Teimlant yn esmwyth ynglŷn â thrafod unrhyw fater gyda'r ysgol ac yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae pawb o'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd 11 o ddisgyblion yr holiadur. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd. Mae pawb yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel. Credant bod yna ddigon o lyfrau ac offer. Maent i gyd yn nodi eu bod yn cael eu haddysgu i fod yn iach ac mae pawb o'r farn bod digon o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae pawb o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent i gyd yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn gofidio am rywbeth ac yn credu bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol. Mae pawb yn credu bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi ac yn credu eu bod yn ymddwyn yn dda amser chwarae a'r egwyl ginio. Mae pawb o'r farn bod yr ysgol yn delio â bwlio'n dda.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

David Gareth Evans	Arolygydd Cofnodol
Dylan Jones	Arolygydd Lleyg
Elin Evans	Arolygydd Cymheiriaid
Catrin Roberts	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.